Asesiad Drafft o Effaith Rheoliadol

Y Gwasanaethau Cefnogi Cyflenwyr sydd wedi'u Cyllido gan y Gronfa CSL
Papur Ymgynghori

---

1. Rhagarweiniad

1.1 Mae hwn yn asesiad drafft o effaith rheoliadol yr opsiynau sydd wedi'u hamlinellu yn ein papur ymgynghori 'Adolygiad y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol o'r Gwasanaeth Cefnogaeth Arbenigol a'r Grantiau Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol sydd wedi'u hariannu gan y Gronfa Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol', a gyhoeddwyd ar Fehefin 18fed 2007. Mae'r cynigion sydd wedi'u cyflwyno yn y papur hwnnw'n bwnc ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd sy'n dod i ben ar Fedi'r 10fed 2007. Pan fydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, bydd yr ymateb a gyhoeddir gan y Comisiwn yn cynnwys asesiad llawn o'r effaith rheoliadol a bydd hwn yn cymryd unrhyw adborth a dderbynnir i ystyriaeth.

1.2 Mae'r papur ymgynghori'n canolbwyntio ar wariant o'r Gronfa CLS ar brosiectau sydd heb eu cyllido drwy'r Contract Unedig. Mae'n gofyn a ddylid parhau i'w cyllido o gwbl ac, os felly, ar ba delerau. Mae'r adolygiad yn amlinellu cynigion ar gyfer dau faes cyllido allweddol:

- Cyllideb Grantiau'r CLS (Grantiau);
- y Gwasanaeth Cefnogaeth Arbenigol (SSS).

Mae'r rhain wedi'u cynnwys gyda'i gilydd dan y term ymbarél 'Gwasanaethau Cefnogi Cyflenwyr' ond cânt eu trin yn fanwl ar wahân yn y papur ymgynghori, fel y maent isod.

2. Teitl y Cynnig

2.1 Adolygiad y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol o'r Gwasanaeth Cefnogaeth Arbenigol a'r Grantiau Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol sydd wedi'u hariannu gan y Gronfa Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol.

CYLLIDEB GRANTIAU'R CLS

3. Y Pwrpas a'r Effaith a Fwriedir

3.1 Amcan y Cynigion

Amcan y cynnig yma yw:

- cynyddu'r gyllideb Grantiau i £1 miliwn y flwyddyn am dair blynedd;
- diwygio'r broses ymgeisio a'r meini prawf presennol, eu hadlinio gyda Strategaeth y CLS a blaenoriaethau corfforaethol cyfredol yr LSC; a
- chynnal ymarfer tendro i ddyrannu adnoddau o fis Ebrill 2008.

3.2 Y Cefndir

Mae Cyllideb Grantiau'r CLS yn fecanwaith sydd wedi caniatáu i'r Comisiwn ystyried cynigion cyllido ad hoc o amrywiaeth o gyrff a dyfarnu cyllid i brosiectau a gweithgareddau nad ydynt o anghenraid yn darparu cyngor uniongyrchol i gleientiaid cymwys yn unig. Mae'n rhan o'r Gronfa CLS ac, yn 2006/07, y cyfanswm oedd £928,233.

Ar hyn o bryd caiff ei defnyddio i gefnogi'r pedwar prosiect dilynol:

3.2.1 Ffederasiwn y Canolfannau Cyfreithiol

Mae Ffederasiwn y Canolfannau Cyfreithiol (LCF) yn annog datblygiad gwasanaethau cyfreithiol sydd wedi'u cyllido'n gyhoeddus i'w defnyddio gan y mwyaf difreintiedig mewn cymdeithas ac mae'n hybu'r model canolfannau cyfreithiol fel dull o annog defnydd o'r fath. Mae'r LCF yn hybu arloesi ac arferion da mewn darparu gwasanaethau cyfreithiol o ansawdd da i'r gymuned i wella mynediad a chyfiawnder.

Mae adroddiadau monitro'n dangos bod gweithgareddau LCF yn rhannu'n fras i ddau gategori:

- cefnogaeth uniongyrchol, rheolaeth a hyrwyddiad canolfannau cyfreithiol; a
- chysylltiad, ymgynghoriad ac ymgyrchu mewn perthynas â chyrff allanol (statudol gan fwyaf) ar faterion polisi sy'n arwyddocaol i ganolfannau cyfreithiol.

Mae'r grant, o £331,210, dros 2004-06 yn cyllido swyddi'r Cyfarwyddwr, y Rheolwr Polisi a'r Gweinyddwr yng Nghyfarwyddiaeth Gwasanaethau Canolog y LCF yn uniongyrchol. Mae wedi'i gynllunio i barhau tan ddiwedd mis Mawrth 2008, pan fydd yn dod i ben dan y telerau presennol.

3.2.2 Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth

Mae'r Ganolfan yn darparu cymysgedd o waith traddodiadol Cyngor ar Bopeth (cyngor cyffredinol) a chymorth cyfreithiol pro bono yn bersonol i achwynwyr mewn achosion yn yr Uchel Lys, Prif Gofrestrfa'r Adran Deulu a'r Llys Apêl.

Mae'r gwasanaethau'n amrywio o gyngor cyfreithiol mewn sesiynau 'galw heibio' a chymorth i gasglu dogfennau cyfreithiol at ei gilydd, i weithredu mewn cyfreitha cymhleth. Bwriad y gwaith yma yw galluogi achwynwyr i ymddangos gyda dealltwriaeth well o sut i gyflwyno eu hachos. Mae'r Ganolfan yn sicrhau bod achwynwyr yn ymddangos gyda phapurau wedi'u trefnu'n gywir a dadl sgerbwd mewn ysgrifen ac, ar adegau, mae'n caniatáu i'r achwynwr gael ei gynrychioli/ei chynrychioli.

Mae'r grant yma, o £566,558 dros 2004-2006, yn talu am staffio sylfaenol y Ganolfan: tri chyfreithiwr, dau oruchwylydd gwaith achos wedi'u hyfforddi, un

cynorthwyydd gweinyddol a hanner amser Cyfarwyddwr y Ganolfan a'r derbynnydd. Yn ychwanegol at y grant yma, mae gwasanaethau pro bono wedi'u sicrhau i helpu i ddarparu gwasanaethau'r Ganolfan. Mae wedi'i gynllunio i barhau tan ddiwedd mis Mawrth 2008 pan fydd yn dod i ben dan y telerau presennol.

3.2.3 Cynghrair y Gwasanaethau Cynghori

Cynghrair y Gwasanaethau Cynghori (ASA) yw'r corff ymbarél ar gyfer yr holl wasanaethau a rhwydweithiau cynghori annibynnol ym Mhrydain. Ei bwriad yw:

- hyrwyddo datblygiad gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfreithiol o ansawdd da;
- sicrhau nad yw pobl yn cael eu gwahardd rhag defnyddio gwasanaethau o'r fath oherwydd prinder arian, gwahaniaethu neu anfantais arall;
- annog cydweithrediad rhwng cyrff sy'n darparu gwasanaethau o'r fath; a
- darparu fforwm i drafod materion o ddiddordeb cyffredin neu sy'n achos pryder cyffredin i gyrff cynghori.

Roedd y grant yma, o £558,698 dros 2004-06, yn ariannu dau faes amlwg o waith:

- swyddi rheolwyr sefydliadol a pholisi 'craidd': ymgynghori, cydlyniad ac arweiniad ar bolisi; a
- phrosiect Cefnogaeth y CLS: ymgynghoriaeth, gwybodaeth, hyfforddiant a gwasanaethau cefnogi eraill i gyrff cynghori a darparu cefnogaeth i gyrff sy'n gwneud cais am gontractau, neu sy'n gweithredu contractau gyda'r LSC.

Mae wedi'i gynllunio i barhau tan ddiwedd mis Mawrth 2008, pan fydd yn dod i ben dan y telerau presennol.

Mae'r ASA hefyd yn derbyn £34,000 gan Raglen Gwasanaethau Uniongyrchol yr LSC i gefnogi dwy wefan, Advicenow ac ADRnow, ond nid yw'r ariannu yma'n rhan o Gyllideb Grantiau'r LSC.

3.2.4 Grŵp Cyfreithwyr Pro Bono, Prosiect LawWorks

Mae'r LSC a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ) yn cyllido'r Grŵp Cyfreithwyr Pro Bono (SPBG) ar y cyd. Mae'r grŵp yma'n gweithio mewn partneriaeth â'r LCF i ddarparu'r Prosiect LawWorks. Mae'r prosiect yn hwyluso cyfranogaeth y proffesiwn cyfreithiol mewn gwaith pro bono drwy dair elfen sy'n perthyn i'w gilydd:

- clinigau cyngor cyfreithiol pro bono wyneb yn wyneb;
- Cyngor Electronig Cyntaf sydd wedi'i seilio ar y we (un cwestiwn wedi'i ateb drwy'r rhyngrwyd); a

- Dolen ar y we i Gyngor a Chymorth Manwl (tŷ clirio sy'n cyfateb gwaith achos gyda chyfreithwyr).

Mae'r grant, o £400,000 o fis Medi 2004 hyd fis Awst 2007 (gyda £200,000 pellach gan MoJ), yn talu'n uniongyrchol am dri rheolwr prosiect ac un cynorthwyydd gweinyddol i:

- ddarparu ymgynghoriad i'r bobl hynny sydd eisiau agor Clinigau, rheiny sydd â Chlinigau ar waith yn barod a chwmnïau cyfreithiol sydd eisiau gwirfoddoli mewn Clinig;
- ehangu darpariaeth yr hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein i gyfreithwyr;
- datblygu rhaglen addysg gyfreithiol i gymunedau lleol;
- ymestyn meysydd Cyngor Electronig Cyntaf ar y We lle nad oes Clinigau LawWorks, gyda sylw arbennig i ardaloedd gwledig; ac
- ehangu Cyngor a Chymorth Manwl ar y We i gymunedau trefol a gwledig i ddarparu system o waith achos pro bono i unigolion a grwpiau cymunedol.

Mae wedi'i gynllunio i barhau tan ddiwedd mis Mawrth 2008, pan fydd yn dod i ben dan y telerau presennol.

3.3 Y Rhesymau am Ymyrryd

Rydym wedi adolygu gwariant cyfredol cyllideb Grantiau'r CLS ac wedi ystyried y cyfeiriad sydd wedi'i osod gan y Strategaeth CLS a blaenoriaethau corfforaethol yr LSC. O ganlyniad, rydym wedi adolygu'r defnydd strategol y dylid ei wneud o'r Grantiau a chynnig prosesau ymgeisio a meini prawf diwygiedig ar gyfer y gyllideb hon.

Bydd y cynigion yn sicrhau bod Grantiau wedi'u defnyddio i gefnogi amcanion strategol y Comisiwn, gyda'r bwriad o gyllido gwasanaethau penodol y gellir eu darparu a chanlyniadau prosiectau yn hytrach na swyddi generig yn y cyrff sydd wedi'u hariannu.

Bydd y trefniadau cyfredol ar gyfer cyllido'n parhau yn eu ffurf bresennol hyd ddiwedd mis Mawrth 2008, pan roedd y pedwar grant i ddod i ben dan y telerau presennol beth bynnag. O fis Ebrill, mae'r CLS yn bwriadu parhau i gyllido grantiau yn unol â gwasanaeth newydd, sydd wedi'i alinio'n well.

4. Ymgynghoriad

4.1 Mae'r cynigion yn bwnc ymgynghoriad cyhoeddus, deuddeg wythnos sy'n rhan o'r Adolygiad ehangach o'r Gwasanaethau Cefnogi Cyflenwyr. Bydd hwn yn dod i ben ar Fedi'r 10fed 2007. Nod y Comisiwn yw ymgysylltu rhanddeiliaid dros y cyfnod ymgynghori, ceisio eu barn ac unrhyw awgrymiadau gwahanol. Mae croeso hefyd i sylwadau am yr asesiad draft yma o effaith fel ffordd o hysbysu'r asesiad llawn o effaith.

Ar ddiwedd yr ymgynghoriad, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi unrhyw ymatebion, ynghyd ag asesiad llawn o effaith rheoliadol.

5. Opsiynau

5.1 Isod mae crynodeb o'r opsiynau a gyflwynwyd yn y papur ymgynghoriad, er bod y Comisiwn yn awyddus hefyd i glywed os oes gan ymatebwyr gynigion neu sylwadau gwahanol allai gyrraedd yr un amcanion. Bydd yr opsiynau wedi'u hadolygu yng nghyd-destun yr asesiad llawn o effaith rheoliadol yn ddiweddarach eleni.

5.2 Gwneud Dim: parhau gyda'r un meini prawf, proses a chyllideb sydd ar waith ar hyn o bryd.

5.3 Diwygio'r Meini Prawf: mae'r opsiwn yma'n gosod cyfyngiad eglur ar gyfer cyllideb Grantiau'r CLS, gan ei gynyddu i £1 miliwn y flwyddyn am dair blynedd. Mae'n alinio'r meini prawf ar gyfer cyllido yn y dyfodol gyda'r Strategaeth CLS a blaenoriaethau corfforaethol cyfredol y LSC. Bydd cytundebau cyllido presennol yn parhau hyd eu dyddiadau terfynu gwreiddiol ym mis Mawrth 2008 a bydd cyrff, yn cynnwys y rheiny sy'n derbyn grantiau ar hyn o bryd, yn gallu gwneud cais am gyllido ar gyfer prosiectau dan y meini prawf diwygiedig o fis Ebrill 2008.

5.4 Ailgyfeirio'r Gyllideb: ailgyfeirio cyllideb Grantiau cyfan y CLS. Byddai hyn yn galluogi i £1 miliwn ychwanegol gael ei wario ar ddarparu cychwyniad materion newydd ond byddai'n dileu'r hyblygrwydd i ddyfarnu ariannau i brosiectau sy'n helpu i gyflawni ein blaenoriaethau strategol, ond nad oes modd eu hariannu dan gontractau cymorth cyfreithiol sifil prif ffrwd.

6. Costau a Manteision

6.1 Y Sectorau a Effeithir

Mae'r sectorau a'r grwpiau allai gael eu heffeithio gan gynigion yr ymgynghoriad yn cynnwys:

- darparwyr di-elw sy'n derbyn Grantiau ar hyn o bryd;
- darparwyr di-elw yn y dyfodol allai dderbyn Grantiau;
- defnyddwyr cyfredol a'r dyfodol o wasanaethau wedi'u cyllido gan Grantiau;
- darparwyr preifat cyfredol ac yn y dyfodol sy'n cymryd rhan mewn gwasanaethau sydd wedi'u cyllido gan Grantiau;
- cyflogeion a gwirfoddolwyr mewn cyrff di-elw a darparwyr preifat sy'n cynnig gwasanaethau wedi'u cyllido gan Grantiau;
- rheiny allai ddarparu cychwyniad materion newydd ychwanegol;
- rheiny allai fod yn derbyn cychwyniad materion newydd ychwanegol; a
- chyrff cynrychiadol cyfreithiol a di-elw.

6.2 Dadansoddiad o Gostau, Anfanteision a Risgiau a Manteision

6.2.1 Gwneud Dim

Costau, Anfanteision a Risgiau

- Ni fyddai'r opsiwn yma'n llwyddo i sefydlu uchafswm o'r gronfa CLS sydd ar gael i bwrpasau heblaw i ddarparu gweithgareddau cefnogi.
- I bob pwrpas, byddai'n derbyn y gellid parhau i wneud a chyllido ceisiadau gan ddefnyddio'r meini prawf presennol, gan sicrhau bod cyllid ar gael ar sail ymatebol, ad hoc.
- Byddai'n gadael prosiectau heb eu halinio gyda'r Strategaeth CLS a blaenoriaethau corfforaethol yr LSC.

Manteision

- Byddai cadw pethau fel y maent yn golygu bod darparwyr a defnyddwyr yn parhau'n gyfarwydd gyda phrosesau a chynlluniau cyfredol.
- Byddai'n gadael yr ariannau hynny sydd ar gael i bwrpasau heblaw i ddarparu gweithrediadau cynorthwyo heb gyfyngiad arnynt.

6.2.2 Adolygu'r Meini Prawf

Costau, Anfanteision a Risgiau

- Gallai'r newidiadau a gynigir achosi gwrthwynebiad gan ddarparwyr.
- Gallai gwrthwynebiad arwain at dynnu cefnogaeth yn ôl, neu golli diddordeb, yn y cynllun yn gyfangwbl.
- Byddai'n rhaid i gyrff sy'n cael eu cyllido ar hyn o bryd wneud cais am gyllid eto dan y meini prawf diwygiedig.

Manteision

- Byddai'r opsiwn yma'n cynyddu cyllideb Grantiau'r CLS o £928,000 i £1 miliwn y flwyddyn am dair blynedd.
- Heblaw ei fod yn golygu cynnydd yn y gyllideb, byddai hyn hefyd yn cynnig rhywfaint o sefydlogrwydd yn y tymor canolig.
- Bydd trefniadau cyllido presennol yn parhau dan y telerau presennol hyd y dyddiadau terfynu y cytunwyd arnynt ar eu cyfer ym mis Mawrth 2008, gan osgoi unrhyw amhariad annisgwyl yn y cyfamser.
- Bydd cyfle i gyrff sy'n derbyn grantiau ar hyn o bryd wneud cais arall am gyllid ar ôl mis Mawrth 2008.
- Bydd y meini prawf diwygiedig yn alinio cyllido'n well yn y dyfodol gyda'r Strategaeth CLS a blaenoriaethau corfforaethol cyfredol yr LSC.

6.2.3 Ailgyfeirio'r Gyllideb

Costau, Anfanteision a Risgiau

- Byddai ailgyfeirio'r gyllideb Grantiau gyfan i rywle arall yn tynnu'r hyblygrwydd defnyddiol sydd ar gael ar hyn o bryd i ddyfarnu ariannau i brosiectau na ellir eu cyllido dan gontractau cymorth cyfreithiol sifil prif ffrwd.
- Byddai hyn yn amharu ar ein gallu cyfredol i gyflawni ein blaenoriaethau strategol gan ddefnyddio dulliau o'r fath.
- Gallai cyrff sy'n darparu gwasanaethau gwerthfawr ar hyn o bryd fethu o ganlyniad i dynnu cyllido CLS yn ei ôl.

Manteision

- Byddai ailgyfeirio'r gyllideb Grantiau'n caniatáu i £928,000 yn ychwanegol gael ei ailgyfeirio i ddarparu cychwyniad materion newydd.

7. Asesiad o Effaith Cydraddoldeb a Thegwch: Effeithiau Hil, Anabledd, Rhyw a Lleoliad Gwledig

Ein Dyletswyddau:

7.1 Cydraddoldeb Hiliol

Mae gan awdurdodau cyhoeddus ym Mhrydain ddyletswydd gyfreithiol i hybu cydraddoldeb hiliol. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddynt ystyried yn ddigonol sut y byddent:

- yn cael gwared â gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon;
- yn hybu cyfleoedd cyfartal; ac
- yn hybu perthnasoedd da rhwng pobl o wahanol grwpiau.

Mae gan yr MoJ a'r LSC hefyd ddyletswydd benodol i wneud asesiadau o effaith cydraddoldeb hiliol eu polisïau mewn perthynas â'r ddyletswydd gyhoeddus i hybu cydraddoldeb hiliol ac, o fewn hynny, i bennu a oes effaith niweidiol a gwahaniaethol ar grwpiau hiliol arbennig.

7.2 Cydraddoldeb ar sail Anabledd

Daeth y Ddyletswydd Cydraddoldeb ar sail Anabledd i rym ar Ragfyr 4ydd 2006. Mae'r LSC wedi cyhoeddi ei Gynllun Cydraddoldeb ar sail Anabledd yn barod ac mae hwn ar gael ar wefan LSC ar www.legalservices.gov.uk. Mae hon yn disgrifio'r hyn y byddwn yn ei wneud i hybu cydraddoldeb ar sail anabledd ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyfreithiol a'r cleientiaid y maent yn eu gwasanaethu, a'n staff.

Wrth wneud ein gwaith, mae'n rhaid i ni ystyried y dyletswyddau sydd wedi'u gosod arnom gan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005. Dyma nhw:

- hybu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl anabl a phobl eraill;
- diddymu gwahaniaethu sy'n anghyfreithlon dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd;

- diddymu aflonyddu pobl anabl sy'n berthnasol i'w hanableddau;
- hybu agweddau positif tuag at bobl anabl;
- annog cyfranogaeth gan bobl anabl mewn bywyd cyhoeddus; a
- chymryd camau i gymryd i ystyriaeth anableddau pobl anabl, hyd yn oed lle mae hynny'n gofyn trin pobl anabl yn fwy ffafriol na phobl eraill.

O Ragfyr 4ydd 2006, mae'r MoJ a'r LSC wedi cael dyletswydd benodol i wneud asesiadau o effaith cydraddoldeb ar sail anabledd eu polisïau mewn perthynas â'r ddyletswydd gyhoeddus i hybu cydraddoldeb ar sail anabledd ac, yn rhan o hyn, i ganfod a oes effaith niweidiol a gwahaniaethol ar bobl anabl a phobl eraill.

7.3 Cydraddoldeb ar sail Rhyw

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2006 yn ei gwneud hi'n ddyletswydd statudol ar bob awdurdod cyhoeddus, wrth wneud eu swyddogaethau, i roi ystyriaeth ddyledus i'r angen am:

- ddiddymu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon; a
- hybu cyfle cyfartal rhwng dynion a merched.

O Ebrill 6ed 2007, mae'r MoJ a'r LSC wedi bod dan ddyletswydd benodol i wneud asesiadau o effaith cydraddoldeb ar sail rhyw ar eu polisïau mewn perthynas â'r ddyletswydd gyhoeddus i hybu cydraddoldeb ar sail rhyw ac, yn rhan o hynny, i ganfod a oes effaith niweidiol a gwahaniaethol ar bobl o wahanol ryw.

7.4 Prawfesur Polisïau o safbwynt anghenion Cefn Gwlad

Mae angen i awdurdodau cyhoeddus hefyd roi ystyriaeth i anghenion ac amgylchiadau gwledig (Papur Gwyn Cefn Gwlad, 2000). Mae prawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad yn dweud y dylai gwneuthurwyr polisïau wneud y canlynol yn systematig:

- ystyried a yw eu polisi'n debygol o gael effaith wahanol mewn ardaloedd gwledig, oherwydd anghenion neu amgylchiadau gwledig arbennig;
- gwneud asesiad go iawn o'r effeithiau hynny, os ydynt yn debygol o fod yn arwyddocaol; ac
- addasu'r polisi, lle bo'n briodol, gyda datrysiadau i gyflawni anghenion ac amgylchiadau gwledig.

Lle bo'n briodol, dylai'r MoJ a'r LSC hefyd ystyried effeithiau eu polisïau ar gefn gwlad i ganfod ymhle mae effaith niweidiol a gwahaniaethol ar ardaloedd gwledig.

7.5 Y Sefyllfa Gyfredol

Mae gan grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig ("BME"), yr anabl, pobl o wahanol rywiau, a phobl sy'n byw a/neu'n gweithio mewn cymunedau gwledig

ddiddordeb uniongyrchol mewn unrhyw newidiadau i'r cynllun cymorth cyfreithiol, fel perchnogion a/neu reolwyr cwmnïau cyfreithwyr sy'n darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol, fel cyflogeion y cyrff hynny, fel bargyfreithwyr ac arbenigwyr sy'n darparu gwasanaethau i gyrff dan gontract ac fel cleientiaid gwasanaethau cymorth cyfreithiol.

8. Yr Effaith ar Ddarparwyr, Cyflogeion a Chleientiaid

8.1 Yr Effaith ar Ddarparwyr

Fel y dywedwyd uchod, y pedwar corff sy'n derbyn cyllid grant yw'r Ffederasiwn Canolfannau Cyfreithiol (LCF), Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth (RJC CAB), y Gynghrair Gwasanaethau Cynghori (ASA) a Grŵp Cyfreithwyr Pro Bono (SPBG) Prosiect LawWorks.

Yn 2005/06 darparodd yr LSC 25% o incwm yr LCF, ac o hwn roedd 20% yn gyllid grant a 5% yn gyllido LSC arall (Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol 2005/06 LCF).

Yn 2005/06 darparodd yr LSC 44% o incwm yr RJC CAB. (Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol 2005/06 RCJ).

Yn 2005/06 darparodd yr LSC 51% o incwm yr ASA, a 32% o hwn oedd y grant dan adolygiad a 19% yn gyllido LSC arall. (Ffynhonnell: gwybodaeth ariannol yr ASA a gyflwynwyd fel rhan o'u cais yn 2006/08 am grantiau).

Yn 2005/06 darparodd yr LSC 33% o incwm prosiect SPBG LawWorks. (Ffynhonnell: SPBG LawWorks).

Nid yw Canolfan Ymchwil y Gwasanaethau Cyfreithiol (LSRC)[1] na'r LSC cyfan yn gallu darparu data am ethnigrwydd, anabledd a rheolaeth a/neu berchnogaeth yn ymwneud â rhyw, neu statws cefn gwlad, y pedwar corff sy'n derbyn cyllido drwy grantiau.

Ar ben hynny, mae cytundebau cyfrinachedd gyda darparwyr yn gwahardd rhyddhau data am amrywioldeb i gyrff unigol ac, yn y sefyllfa bresennol, byddai bychander y sampl yn milwrio'n amlwg yn erbyn rhyddhau data fel yma beth bynnag.

8.2 Yr Effaith ar Gyflogeion

Unwaith eto, ni all yr LSRC na'r LSC cyfan ddarparu data am ethnigrwydd anabledd, cydbwysedd y rhywiau na statws gwledig y cyflogeion yn y pedwar corff sy'n derbyn cyllid drwy grantiau.

Eto, mae cytundebau cyfrinachedd gyda darparwyr yn atal rhyddhau data amrywioldeb i sefydliadau unigol, a chyflogeion unigol ac, yn y sefyllfa

[1] Canolfan Ymchwil y Gwasanaethau Cyfreithiol (LSRC) yw Adran Ymchwil annibynnol y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (LSC). Cafodd ei sefydlu yn 1996 i hysbysu polisi cymorth cyfreithiol a gweithrediadau diwygio.

bresennol, mae'n amlwg y byddai bychander y sampl yn milwrio yn erbyn rhyddhau data o'r fath beth bynnag.

8.3 Yr Effaith ar Gleientiaid

Er bod y nifer o gleientiaid sy'n derbyn cymorth yn golygu na fyddai cytundebau cyfrinachedd yn atal cyrff sy'n derbyn grantiau rhag rhyddhau data, mae problemau gyda'r syniad cyfan o 'gleientiaid' yn y maes yma. Mae LCF ac ASA yn darparu cefnogaeth strategol barhaus i raddau mawr i'w cyrff aelodol eu hunain tra bo SPBG LawWorks yn helpu cyfreithwyr i ddarparu cyngor pro bono. Nid oes ganddynt hwy eu hunain 'gleientiaid' unigol yn ystyr arferol y gair.

Am y rheswm hwnnw, ni all yr LSRC na'r LSC fel cyrff cyfan ddarparu data am statws gwledig, cydbwysedd y rhywiau, anabledd nag ethnigrwydd cleientiaid y tri chorff yma.

Er bod yr RCJ CAB yn cynhyrchu ffigurau rheolaidd am nifer y cleientiaid sy'n derbyn cymorth, nid yw wedi gorfod cynhyrchu ffigurau hyd yma am fanylion y sampl yn ôl y categorïau ethnig, anabledd, rhywiau neu wledig.

Fodd bynnag, hyd yn oed o ystyried y prinder amlwg o ddata yn y maes yma, credir nad oes effaith y gellir ei weld gan gyflwyniad y cynigion newydd mewn perthynas â grantiau. Bydd yr holl gytundebau cyllido presennol sy'n ymwneud â'r gyllideb Grantiau'n parhau fel roeddent wedi'u bwriadu'n wreiddiol hyd eu dyddiadau terfynu ym mis Mawrth 2008, fel y cawsent eu cytuno o flaen llaw dan delerau eu cytundebau. Yn yr un modd, bydd yr holl gyrff perthnasol sydd â diddordeb mewn darparu prosiectau o fewn cwmpas y meini prawf, yn cynnwys y cyrff hynny sy'n derbyn cyllido grantiau ar hyn o bryd, yn gallu gwneud cais arall am gyllid dan y meini prawf diwygiedig ar delerau cyfartal, heb ystyried y ffactorau sy'n ymwneud ag ethnigrwydd, anabledd a rhyw neu leoliad gwledig.

9. Asesiad o'r Gystadleuaeth

Wedi cyfeirio at brawf hidl cystadleuaeth y Swyddfa Masnachu Teg (OFT), ni welwyd unrhyw effaith arwyddocaol ar gystadleuaeth o ganlyniad i'n cynigion mewn perthynas â'r gyllideb Grantiau.

10. Prawf Effaith Cymorth Cyfreithiol

Ni fydd unrhyw effaith negyddol ar y Gronfa CLS. Bydd y cyllid ychwanegol o £72,000 ar gyfer y gyllideb Grantiau wedi'i ganfod drwy'r arbedion sydd wedi'u cynnig i'r SSS. Bydd unrhyw arbedion a wneir wedi'u hailgyfeirio, beth bynnag, tuag at gychwyniad materion newydd, fel y maent wedi'u disgrifio yn y papur ymgynghori. Felly, ni fydd y cynigion yn cael unrhyw effaith ar lefel gwariant yr LSC ar Gymorth Cyfreithiol.

11. Gorfodi, Sancsiynau a Monitro

Mae'r LSC wedi'i ymrwymo i fonitro effaith gyffredinol y cynigion ar bartïon sydd â diddordeb, a hefyd unrhyw brosiectau a gyllidir wedi hynny dan y meini prawf a'r broses newydd, dros y tair blynedd sy'n dilyn gweithrediad y cynigion newydd.

12. Cynlluniau Gweithredu a Darparu

Bydd manylion y cynlluniau gweithredu a darparu i'w cael yn yr asesiad llawn o effaith rheoliadol sydd i gael ei gyhoeddi yn dilyn cyflawniad yr ymgynghoriad.

13. Adolygiad ar ôl Gweithredu

Byddwn yn monitro ac yn gwerthuso effaith y cynigion yn dilyn eu gweithredu a byddwn yn adrodd ein canfyddiadau yn unol â'n dyletswyddau statudol a Chynllun Cydraddoldeb y LSC.

14. Mesurau Symleiddio Digolledu

Mae Swyddfa'r Cabinet wedi cyhoeddi canllawiau interim ar symleiddio digolledia d, i'w defnyddio wrth gynhyrchu asesiadau o effaith rheoliadol. Mae'r canllaw interim yn gofyn i gyrff llywodraethol fynd ati i chwilio am gyfleoedd i symleiddio neu ddileu gofynion sy'n bodoli'n barod pan fyddent eisiau cyflwyno rheoliad newydd, ac asesu i ba raddau y bydd unrhyw gynigion symleiddio'n gwrthbwyso cost y mesuriad rheoliadol newydd ac effaith dileu'r ddarpariaeth gyfredol.

Nid yw'r cynigion yma'n darparu baich rheoliadol llai nag ychwanegol i gwmnïau neu ddarparwyr di-elw. Eu nod yw diwygio'r broses ymgeisio a'r meini prawf cyfredol, gan eu hadlinio gyda'r Strategaeth CLS a blaenoriaethau corfforaethol cyfredol yr LSC.

Felly mae'r LSC yn rhagweld y bydd y cynigion yn gwneud cyfraniad positif i amcanion y Llywodraeth ar gyfer symleiddio a gostwng baich y systemau rheoliadol.

15. Crynodeb ac Argymhelliad

Mae'r LSC yn argymell y dylid cyflwyno meini prawf diwygiedig, gan gynyddu cyllideb Grantiau'r CLS i £1 miliwn y flwyddyn am dair blynedd, gan barhau'r cytundebau cyllido presennol hyd y dyddiadau terfynu y cytunwyd arnynt ar eu cyfer, ac alinio meini prawf cyllido'r Grantiau gyda'r Strategaeth CLS a blaenoriaethau corfforaethol cyfredol yr LSC.

Y GWASANAETH CEFNOGAETH ARBENIGOL

16. Y Pwrpas a'r Effaith a Fwriedir

16.1 Amcan y Cynigion

Amcan y cynnig yma yw:

- cadw ac atgyfnerthu'r SSS, gan barhau gyda gwasanaeth ymgynghori wedi'i addasu a'i ail dendro;
- tynnu cyllid yn ôl am gyfeiriadau gwaith achos uniongyrchol a thalu am yr achosion yma ar gyfradd safonol y taliad drwy'r Cytundeb Unedig; a
- thynnu cyllid yn ôl am gyrsiau hyfforddi.

16.2 Y Cefndir

Mae'r SSS yn darparu cefnogaeth ail haen mewn tair ffordd: ymgynghoriaeth, cyfeirio gwaith achos a hyfforddiant. Mae'n rhoi hyn i gyrff cynghori cymwys ym meysydd: budd-daliadau lles, dyled, tai, cyflogaeth, gofal cymunedol., mewnfudiad, iechyd meddwl, cyfraith gyhoeddus a hawliau dynol. Cost gyffredinol yr SSS yn 2005 oedd £2,571,000 ac yn 2006/07 cododd hyn i £2,607,000.

Mae'r cyrff sydd wedi'u cyllido drwy'r SSS yn cynnwys amrywiaeth o siambrau bargyfreithwyr, cwmnïau cyfreithwyr a chyrff di-elw. Ynghyd â'r categorïau cyfreithiol y maent yn darparu cefnogaeth arbenigol iddynt, dyma nhw:

- 1 Pump Court (Tai)
- Grŵp Gweithredu yn erbyn Tlodi Plant - CPAG (Budd-daliadau Lles)
- Christian Khan (Gofal yn y Gymuned a Chyfraith Gyhoeddus)
- Uned Cefnogaeth Arbenigol Cyngor ar Bopeth (Cyflogaeth a Dyled)
- Gwasanaeth Cyfraith Anabledd (Gofal yn y Gymuned)
- Siambrau Stryd Doughty (Hawliau Dynol a Chyfraith Gyhoeddus)
- Siambrau Garden Court (Cyflogaeth, Tai a Mewnfudo)
- Cydgyngor Lles Mewnfudwyr - JCWI (Mewnfudo)
- Rhyddid (Hawliau Dynol)
- Cynghrair Gwasanaethau Cynghori Llundain - LASA (Budd-daliadau Lles)
- MIND (Iechyd Meddwl)
- Morgans Cyfreithwyr (Dyled, Tai a Budd-daliadau Lles – Cymru'n unig)
- Prosiect Cyfraith Gyhoeddus (Cyfraith Gyhoeddus)
- Cyfreithwyr Cyfraith Gyhoeddus (Gofal yn y Gymuned)
- Scott-Moncrieff, Harbour & Sinclair (Iechyd Meddwl)
- Shelter Cymru (Tai – Cymru'n unig)
- Shelter (Tai - Lloegr yn unig)
- Ymddiriedolaeth Terrence Higgins (Mewnfudo).

16.3 Y Rhesymau am Ymyrraeth

16.3.1 Rydym yn credu bod yr SSS wedi:

- gwella ansawdd ac effeithioldeb cyngor mewn rhai gwasanaethau cynghori cyfreithiol haen gyntaf, a chyrff di-elw;
- gwella canlyniadau achosion i gleientiaid mewn rhai achosion;
- galluogi i rai cleientiaid gael cyngor integredig; a
- chyfrannu at ddatblygiad sgiliau rhai cynghorwyr cyfreithiol haen gyntaf.

16.3.2 Ond, daeth yr adolygiad i'r casgliad bod yr SSS heb ddarparu gwerth am arian ac mae'r papur ymgynghori'n cynnig diwygio'r cynllun presennol.

Mae dadansoddiad o berfformiad gwasanaeth ymgynghori'r SSS yn dangos bod llawer llai o ddefnydd o'r gwasanaeth nag oedd wedi'i gyllido dan y contractau. Rhwng misoedd Ionawr a Rhagfyr 2005, dim ond 58% o'r gwasanaeth ar gontract oedd wedi'i weithredu.

Dim ond 29% o'r holl sefydliadau cymwys oedd wedi defnyddio gwasanaeth ymgynghori'r SSS go iawn, ac o'r rhain roedd 85% yn gyrff di-elw, ac 19% yn gyfreithwyr.

Roedd y nifer o gyrsiau hyfforddi a ddarparwyd yn uwch na'r nifer y cytunwyd arnynt a chawsent eu derbyn yn dda, ond mae'r gost y pen wedi bod yn uchel (£3,983 i bob cwrs, £303 i bob hyfforddai) o'i gymharu â chost cyrsiau cyfatebol mewn mannau eraill. Er enghraifft, mae gwefannau MINS, CPAG, LASA, Siambrau Stryd Doughty, Shelter a JCWI oll wedi hysbysebu cyrsiau undydd, sy'n denu 5-6 pwynt CPD, am brisiau sy'n amrywio o tua £150 i £250.

Dim ond 15 cyfeiriad gwaith achos i gyd a gafwyd, gan greu 111 awr o gyngor.

16.3.3 Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y galw am gyfeiriadau gwaith achos a'r gwasanaeth ymgynghori heb fod ar y lefel a ddisgwyliwyd, ac er bod y nifer a gymerodd gyrsiau hyfforddi wedi bod yn dda, roedd y pris yn uchel ac nid oedd wedi llwyddo i ddarparu gwerth am arian. Yn nhermau'r cyfraniad at flaenoriaethau'r strategaeth CLS ac amcanion corfforaethol yr LSC, daeth yr adolygiad i'r casgliad nad oedd yr SSS wedi cael effaith ddigonol ar y blaenoriaethau allweddol o ystyried gwerth y cyllid sydd wedi'i ddyrannu i'r gwasanaeth.

16.3.4 Rydym yn credu bod ailgyfeirio cyfran o'r gyllideb SSS i dalu am fwy o weithrediadau cymorth cyfreithiol i'r cyhoedd yn:

- darparu gwell gwerth am arian;
- cynyddu mynediad i gleientiaid; ac
- ni fydd yn cael unrhyw effaith niweidiol ar ansawdd.

16.3.5 Yn dibynnu ar fonitro parhaus y gwasanaeth a rheolaeth arferol ar gontract, byddwn yn parhau i gyllido'r darparwyr SSS presennol ar y telerau contract presennol hyd fis Mawrth 2008. O fis Ebrill 2008, rydym yn cynnig parhau i gyllido'r SSS ar gwmpas a thelerau diwygiedig yn dilyn proses

dendro. Bydd gwerth y cyllido sydd wedi'i glustnodi ar gyfer y gwasanaeth wedi'i bennu gan ganlyniad yr ymgynghoriad yma a pherfformiad yr SSS yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol hon, ond ni fydd yn uwch na £2 filiwn.

17. Ymgynghoriad

17.1 Mae'r cynigion yn bwnc ymgynghoriad cyhoeddus, deuddeg wythnos, sy'n rhan o'r Adolygiad ehangach o'r Gwasanaethau Cefnogi Cyflenwyr, lle cânt eu hystyried ynghyd â chynigion sy'n ymwneud â Chyllideb Grantiau'r CLS. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar Fedi'r 10fed 2007. Mae'r Comisiwn yn gobeithio ymgysylltu â rhanddeiliaid dros y cyfnod ymgynghori, gan geisio eu barn ac unrhyw awgrymiadau gwahanol. Mae croeso i bobl roi sylwadau am yr asesiad draft yma o effaith hefyd fel ffordd o hysbysu'r asesiad llawn.

Pan ddaw'r ymgynghoriad yma i ben, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi unrhyw ymatebion, ynghyd ag asesiad llawn o effaith rheoliadol.

18. Opsiynau

18.1 Isod mae crynodeb o'r opsiynau sydd wedi'u cyflwyno yn y papur ymgynghori, er bod y Comisiwn hefyd yn awyddus i glywed a oes gan ymatebwyr sylwadau neu gynigion gwahanol allai gyflawni'r un amcanion. Bydd yr opsiynau wedi'u hadolygu yng nghyd-destun yr asesiad llawn o effaith rheoliadol yn ddiweddarach eleni.

18.2 Gwneud Dim: parhau gyda'r SSS ar ei ffurf bresennol, cadw'r meini prawf, y broses a'r gyllideb sydd ar waith ar hyn o bryd.

18.3 Adolygu'r Meini Prawf: mae ein cynigion yn ymdrin â thri maes allweddol: ymgynghoriaeth; hyfforddiant; a chyfeirio gwaith achos.

18.3.1 Ymgynghoriaeth Rydym yn credu bod y gwasanaeth yma'n cefnogi rhai darparwyr i ddarparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol arbenigol ond ein bwriad yw cadw llygad barcud ar y gwasanaeth drwy wneud mwy o ddefnydd o reoli contractau i sicrhau ei fod yn darparu gwerth am arian. Rydym yn cynnig:

- cyfyngu ar gwmpas yr SSS mewn mewnfudiad ac iechyd meddwl, tynnu'r gwasanaeth oddi wrth y darparwyr sydd â chontract LSC, a'i gadw ar gyfer y rheiny sy'n dal SQM;

- bod y gwasanaeth wedi'i ddefnyddio i ddarparu digon o arweiniad i gyrff haen gyntaf nad ydynt yn darparu cyngor arbenigol am fewnfudiad ac iechyd meddwl, i'w galluogi i roi diagnosis i broblem cleient cyn eu cyfeirio at gorff arbenigol;

- y dylai'r darparydd SSS allu cymryd achosion dan eu Contract Unedig lle nad oes cyflenwad arbenigol ar gael yn lleol.

18.3.2 Hyfforddiant Rydym yn cynnig tynnu cyllid yn ôl yn gyfangwbl ar gyfer y rhaglen hyfforddiant SSS cenedlaethol. Credwn fod y rhaglen yn methu darparu gwerth am arian ac nad yw'n briodol mwyach. Mae cyrsiau priodol ar gael hefyd mewn mannau eraill gan amrywiaeth gyfan o grwpiau gwirfoddol, a gan ddarparwyr preifat.

18.3.3 Cyfeirio Gwaith Achos Rydym yn cynnig tynnu gwaith achos uniongyrchol o gylch gwaith yr SSS, gan ofyn i ddarparwyr wneud gwaith cyfeirio dan delerau eu Contract Unedig.

18.4 Ailgyfeirio'r Gyllideb: ailgyfeirio'r gyllideb SSS i gyd. Byddai hyn yn galluogi i £2.6 miliwn gael ei wario ar ddarparu cychwyniad materion newydd ond byddai'n dileu mynediad i gleientiaid a chyrff cynghori cyfreithiol haen gyntaf i gyngor ansawdd gan ddarparwyr SSS arbenigol mewn perthynas ag ymholiadau cymhleth neu anarferol.

19. Costau a Manteision

19.1 Y Sectorau a Effeithir

- darparwyr SSS sy'n dal contractau ar hyn o bryd;
- darparwyr SSS y dyfodol allai ddal contractau;
- cyflogeion a gwirfoddolwyr darparwyr sy'n cynnig gwasanaethau SSS;
- defnyddwyr yr SSS ar hyn o bryd ac yn y dyfodol;
- rheiny allai fod yn darparu cychwyniad materion newydd ychwanegol;
- rheiny allai fod yn derbyn cychwyniad materion newydd ychwanegol; a
- chyrff cynrychiadol cyfreithiol a di-elw.

19.2 Dadansoddiad o Gostau, Anfanteision a Risgiau a Manteision

19.2.1 Gwneud Dim

Costau, Anfanteision a Risgiau

- Bydd yn gadael yr SSS heb ei alinio â'r Strategaeth CLS a blaenoriaethau corfforaethol cyfredol yr LSC.
- Mae'n debyg y bydd y galw am gyfeiriadau gwaith achos ac ymgynghoriaeth yn aros yn llawer is na'r lefelau cyllido cyfredol.
- Bydd cost hyfforddiant yn parhau i gynrychioli gwerth gwael am arian.
- Bydd risg yn parhau i ddefnyddwyr y gwasanaeth drwy ddefnydd nad yw'n arbenigol o'r SSS gan ddarparwyr yn y categorïau 'gwrthod goddefiad' o gyfraith iechyd meddwl a mewnfudiad.

Manteision

- Mae cadw pethau fel y maent yn golygu bod darparwyr SSS a defnyddwyr gwasanaethau'n parhau'n gyfarwydd gyda phrosesau a chynlluniau cyfredol.

- Mae modd i ddarparwyr sy'n dal contract LSC barhau i ddefnyddio'r gwasanaeth mewn mewnfudiad ac iechyd meddwl.
- Bydd rhaglen hyfforddiant genedlaethol yr SSS ar gael o hyd i ddefnyddwyr y gwasanaeth.
- Mae modd i ddarparwyr barhau i gyfeirio'r gwaith achos uniongyrchol i'r SSS.

19.2.2 Diwygio Meini Prawf

Costau, Anfanteision a Risgiau

- Gallai'r newidiadau a gynigir beri gwrthwynebiad gan ddarparwyr.
- Gallai gwrthwynebiad arwain at dynnu cefnogaeth yn ôl, neu golli diddordeb, yn yr SSS yn gyfangwbl.
- Bydd rhaid i ddarparwyr sydd â chontractau ar hyn o bryd wneud cais am gontractau newydd eto dan y meini prawf ail-dendro diwygiedig.

Manteision

- Bydd yr opsiwn yma'n golygu bod maint y cyllido sydd wedi'i glustnodi ar gyfer y gwasanaeth wedi'i benderfynu gan y galw, ar yr amod bod cyfyngiad o £2 miliwn arno.
- Bydd adolygiad agos o'r gwasanaeth ymgynghori drwy ddefnyddio mwy ar reolaeth contract yn sicrhau gwell gwerth am arian.
- Byddai cyfyngu ar gwmpas y gwasanaeth mewn mewnfudiad ac iechyd meddwl fel nad yw ar gael bellach i'r rheiny sy'n dal contract LSC yn darparu diogelwch ychwanegol i ddefnyddwyr y gwasanaeth.
- Bydd darparwyr yn gallu cymryd eu hachosion eu hunain dan eu Contract Unedig lle nad oes cyflenwad arbenigol lleol.
- Bydd y trefniadau cytundebol presennol yn parhau dan y telerau presennol hyd fis Mawrth 2008, gan osgoi unrhyw amhariad annisgwyl yn y cyfamser.
- Bydd annog mwy o gyfranogaeth yn helpu i agor y farchnad, gan gynnal safonau uchel ac, unwaith eto, ddarparu mwy o werth am arian.
- Bydd y meini prawf diwygiedig yn alinio'r SSS yn well yn y dyfodol gyda'r Strategaeth CLS a blaenoriaethau corfforaethol cyfredol yr LSC.
- Bydd unrhyw arbedion a wneir wedi'u hailgyfeirio tuag at gychwyniad materion newydd.

19.2.3 Ailgyfeirio'r Gyllideb

Costau, Anfanteision a Risgiau

- Bydd ailgyfeirio'r gyllideb SSS gyfan i rywle arall yn golygu na all cleientiaid a chyrff cynghori cyfreithiol haen gyntaf gael gafael ar gyngor o ansawdd da gan ddarparwyr SSS arbenigol mewn perthynas ag ymholiadau anarferol a chymhleth.

- Bydd hyn yn amharu ar ein gallu cyfredol i gyflawni ein blaenoriaethau strategol drwy'r dulliau yma.
- Gallai cyrff sy'n darparu gwasanaethau gwerthfawr ar hyn o bryd fethu o ganlyniad i dynnu cyllido CLS yn ôl.

Manteision

- Bydd ailgyfeirio'r gyllideb SSS yn galluogi i £2,607,000 ychwanegol gael ei ailgyfeirio tuag at ddarparu cychwyniad materion newydd.

20. Asesiad o Effaith Cydraddoldeb a Thegwch: Effaith Hil, Anabledd, Rhyw a Lleoliad Gwledig

Ein Dyletswyddau:

20.1 Cydraddoldeb Hiliol

Mae gan awdurdodau cyhoeddus ym Mhrydain ddyletswydd gyfreithiol i hybu cydraddoldeb hiliol. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddynt ystyried yn ddigonol sut y byddent:

- yn cael gwared â gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon;
- yn hybu cyfleoedd cyfartal; ac
- yn hybu perthnasoedd da rhwng pobl o wahanol grwpiau.

Mae gan yr MoJ a'r LSC hefyd ddyletswydd benodol i wneud asesiadau o effaith cydraddoldeb hiliol eu polisïau mewn perthynas â'r ddyletswydd gyhoeddus i hybu cydraddoldeb hiliol ac, o fewn hynny, i bennu a oes effaith niweidiol a gwahaniaethol ar grwpiau hiliol arbennig.

20.2 Cydraddoldeb ar sail Anabledd

Daeth y Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl i rym ar Ragfyr 4ydd 2006. Mae'r LSC wedi cyhoeddi ei Gynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl yn barod ac mae hwn ar gael ar wefan LSC ar www.legalservices.gov.uk. Mae hon yn disgrifio'r hyn y byddwn yn ei wneud i hybu cydraddoldeb ar sail anabledd ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyfreithiol a'r cleientiaid y maent yn eu gwasanaethu, a'n staff.

Wrth wneud ein gwaith, mae'n rhaid i ni ystyried y dyletswyddau sydd wedi'u gosod arnom gan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005. Dyma nhw:

- hybu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl anabl a phobl eraill;
- diddymu gwahaniaethu sy'n anghyfreithlon dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd;
- diddymu aflonyddu pobl anabl sy'n berthnasol i'w hanableddau;
- hybu agweddau positif tuag at bobl anabl;
- annog cyfranogaeth gan bobl anabl mewn bywyd cyhoeddus; a

- chymryd camau i gymryd i ystyriaeth anableddau pobl anabl, hyd yn oed lle mae hynny'n gofyn trin pobl anabl yn fwy ffafriol na phobl eraill.

O Ragfyr 4ydd 2006, mae'r MoJ a'r LSC wedi cael dyletswydd benodol i wneud asesiadau o effaith cydraddoldeb ar sail anabledd ei bolisïau mewn perthynas â'r ddyletswydd gyhoeddus i hybu cydraddoldeb ar sail anabledd ac, yn rhan o hyn, i ganfod a oes effaith niweidiol a gwahaniaethol ar bobl anabl a phobl eraill.

20.3 Cydraddoldeb ar sail Rhyw

Mae Deddf Cydraddoldeb 2006 yn ei gwneud hi'n ddyletswydd statudol ar bob awdurdod cyhoeddus, wrth wneud eu swyddogaethau, i roi ystyriaeth ddyledus i'r angen am:

- ddiddymu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon; a
- hybu cyfle cyfartal rhwng dynion a merched.

O Ebrill 6ed 2007, mae'r MoJ a'r LSC wedi bod dan ddyletswydd benodol i wneud asesiadau o effaith cydraddoldeb ar sail rhyw ar eu polisïau mewn perthynas â'r ddyletswydd gyhoeddus i hybu cydraddoldeb ar sail rhyw ac, yn rhan o hynny, i ganfod a oes effaith niweidiol a gwahaniaethol ar bobl o wahanol ryw.

20.4 Prawfesur Polisïau o safbwynt anghenion Cefn Gwlad

Mae angen i awdurdodau cyhoeddus hefyd roi ystyriaeth i anghenion ac amgylchiadau gwledig (Papur Gwyn Cefn Gwlad, 2000). Mae prawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad yn dweud y dylai gwneuthurwyr polisïau wneud y canlynol yn systematig:

- ystyried a yw eu polisi'n debygol o gael effaith wahanol mewn ardaloedd gwledig, oherwydd anghenion neu amgylchiadau gwledig arbennig;
- gwneud asesiad go iawn o'r effeithiau hynny, os ydynt yn debygol o fod yn arwyddocaol; ac
- addasu'r polisi, lle bo'n briodol, gyda threfniadau i ateb anghenion cefn gwlad a chyfateb ag amgylchiadau gwledig.

Lle bo'n briodol, dylai'r MoJ a'r LSC hefyd ystyried effeithiau eu polisïau ar gefn gwlad i ganfod a oes effaith niweidiol a gwahaniaethol ar ardaloedd gwledig.

20.5 Y Sefyllfa Bresennol

20.5.1 Mae gan grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig ("BME"), yr anabl, pobl o wahanol rywiau, a phobl sy'n byw a/neu'n gweithio mewn cymunedau gwledig ddiddordeb uniongyrchol mewn unrhyw newidiadau i'r cynllun cymorth cyfreithiol, fel perchnogion a/neu reolwyr cwmnïau cyfreithwyr sy'n darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol, fel cyflogeion y cyrff hynny, fel

bargyfreithwyr ac arbenigwyr sy'n darparu gwasanaethau i gyrff dan gontract ac fel cleientiaid gwasanaethau cymorth cyfreithiol.

20.5.2 Mae gwaith ymchwil a weithredir gan yr LSRC a'i gyhoeddi yn ei Adroddiad Amrywiaeth Blynyddol 2006 wedi darparu gwybodaeth ar ethnigrwydd, anabledd, rhyw a phroffil oedran darparwyr gwasanaethau cymorth cyfreithiol, eu cyflogeion a'u cleientiaid.

20.5.3 Yn 2007, bydd yr LSC yn cyhoeddi ei 4ydd Adroddiad Blynyddol am Gydraddoldeb, fydd yn darparu gwybodaeth ar nifer o feysydd yn cynnwys niferoedd y cleientiaid sydd wedi derbyn cymorth mewn gwahanol grwpiau.

21. Yr Effaith ar Ddarparwyr, Cyflogeion a Chleientiaid

21.1 Yr Effaith ar Ddarparwyr

Ni all yr LSRC na'r LSC cyfan ddarparu data am berchnogaeth a/neu reolaeth ar sail rhyw, anabledd ac ethnigrwydd, neu statws gwledig, y deunaw o ddarparwyr SSS yn eu gwaith SSS. (Er bod *rhai* o'r darparwyr yn cyflwyno data am amrywiaeth ar y sail eu bod yn dal contractau LSC, mae data fel yma'n ymwneud â'u sefydliad cyfan ac nid yr ychydig aelodau unigol o staff sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth). Felly, mae'n amhosib ar hyn o bryd i ganfod o ddata hanesyddol beth fydd effaith debygol ein cynigion mewn perthynas â'r meysydd yma. Ond mae'r LSC yn ymroddedig i ymdrin â'r diffyg presennol mewn data, a byddem yn croesawu'n arbennig gyfraniad unrhyw ystadegau perthnasol gan bartïon sydd â diddordeb.

21.2 Yr Effaith ar Gyflogeion

Ni all yr LSRC na'r LSC cyfan ddarparu data am statws ethnigrwydd, anabledd, cydbwysedd rhywiau neu statws gwledig cyflogeion y deunaw o ddarparwyr SSS yn eu gwaith SSS. (Er bod *rhai* o'r darparwyr yn cyflwyno data am amrywiaeth ar y sail eu bod yn dal contractau LSC, mae data fel yma'n ymwneud â'u sefydliad cyfan ac nid yr ychydig aelodau unigol o staff sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth). Felly, mae'n amhosib ar hyn o bryd i ganfod o ddata hanesyddol beth fydd effaith debygol ein cynigion mewn perthynas â'r meysydd yma. Ond mae'r LSC yn ymroddedig i ymdrin â'r diffyg presennol mewn data, a byddem yn croesawu'n arbennig gyfraniad unrhyw ystadegau perthnasol gan bartïon sydd â diddordeb.

21.3 Yr Effaith ar Gleientiaid

21.3.1 Mae gwaith ymchwil a weithredwyd gan yr LSRC ac a gyhoeddwyd yn ei Adroddiad Blynyddol ar Amrywiaeth 2006 yn rhoi dadansoddiad o amrywiaeth y sefydliadau cleientiaid (h.y. cyflenwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth a gynigir gan y darparwyr SSS).

Roedd data yn ymwneud â defnyddio'r SSS wedi'i rannu'n ddau gategori arwahanol: (i) cefnogaeth gyda lloches a mewnfudiad a (ii) cefnogaeth nad yw'n ymwneud â mewnfudiad.

21.3.2 Mae Tabl 1 isod yn cymharu ethnigrwydd y mwyafrif o'r rheolwyr yn y cyrff cyflenwi oedd yn defnyddio'r SSS ac nad oeddent yn defnyddio'r SSS. Fel y gallwch ei weld, roedd y sefydliadau cleient lle'r oedd mwyafrif y rheolwyr yn BME neu lle'r oedd y rheolaeth wedi'i rannu, fwy na dwywaith mor debygol â'r cyrff hynny lle'r oedd y rheolwyr yn Brydeinwyr gwyn, o fod wedi defnyddio'r SSS ar gyfer materion yn ymwneud â lloches a mewnfudiad. Bydd hyn yn adlewyrchu, i raddau mawr, y gwahanol gontractau a ddelir gan gwmnïau BME o'r fath, ond mae'n bwysig ei nodi beth bynnag.

Tabl 1. Y defnydd a wneir o'r SSS yn ôl Ethnigrwydd y mwyafrif o reolwyr y corff cleient.

Ethnigrwydd	**SSS Mewnfudiad**		**SSS Heb ymwneud â Mewnfudiad**	
	Gwasanaeth heb ei Ddefnyddio	Gwasanaeth wedi'i Ddefnyddio	Gwasanaeth heb ei Ddefnyddio	Gwasanaeth wedi'i Ddefnyddio
Prydeinig Gwyn	2952	194	2629	517
	93.8%	6.2%	83.6%	16.4%
BME	388	58	372	74
	87.0%	13.0%	83.4%	16.6%
Wedi'i rannu	132	24	115	41
	84.6%	15.4%	73.7%	26.3%
Cyfanswm	**3472**	**276**	**3116**	**632**
	92.6%	**7.4%**	**83.1%**	**16.9%**

Ar gyfer materion nad ydynt yn ymwneud â mewnfudiad, er bod y defnydd a wnaethpwyd o'r gwasanaeth yn debyg ymysg y cyrff cleient gyda'r mwyafrif o'u rheolwyr yn Brydeinwyr gwyn a'r rhai gyda'r mwyafrif o'u rheolwyr yn BME, roedd y defnydd a wnaethpwyd o'r gwasanaeth yn arbennig o uchel gan gyrff gyda rheolaeth wedi'u rannu rhwng y ddau grŵp. Roedd y gwahaniaethau yma'n arwyddocaol. Dylid nodi na all sefydliadau cleient gyda rheolaeth wedi'i rannu fod, drwy ddiffiniad, yn ymarferwyr unig - yn wahanol i gyrff gyda mwyafrif rheolwyr gwyn Prydeinig neu BME.

21.3.3 Er bod y defnydd a wnaethpwyd o'r SSS mewnfudiad ychydig bach yn uwch yn unig gan gyrff cleientiaid lle'r oedd y mwyafrif o'r rheolwyr yn ferched, na'r rheiny lle'r oedd mwyafrif y rheolwyr yn ddynion, roedd cynnydd amlwg yn y defnydd a wnaed o'r SSS nad oedd yn ymwneud â mewnfudiad gan gyrff lle'r oedd mwyafrif y rheolwyr yn ferched. Roedd y defnydd a wnaed o SSS mewn materion mewnfudiad ac eraill yn fwyaf cyffredin lle'r oedd gan y sefydliadau cleientiaid reolaeth wedi'i rannu rhwng dynion a merched. Roedd cysylltiad arwyddocaol rhwng rhyw'r mwyafrif o'r rheolwyr yn y corff a'r defnydd a wnaed o SSS mewnfudiad a'r SSS nad oeddent yn ymwneud â mewnfudiad.

Tabl 2. Y defnydd a wneir o'r SSS yn ôl Rhyw'r mwyafrif o reolwyr y corff cleient.

Rhyw	**SSS Mewnfudiad**		**SSS Nad yw'n ymwneud â Mewnfudiad**	
	Gwasanaeth heb ei Ddefnyddio	Gwasanaeth wedi'i Ddefnyddio	Gwasanaeth heb ei Ddefnyddio	Gwasanaeth wedi'i Ddefnyddio
Rheolaeth Wrywaidd	1651	104	1523	232
	94.1%	5.9%	86.8%	13.2%
Rheolaeth Fenywaidd	1342	113	1182	273
	92.2%	7.8%	81.2%	18.8%
Rheolaeth wedi'i rannu	498	57	433	122
	89.7%	10.3%	78.0%	22.0%
Cyfanswm	**3491**	**274**	**3138**	**627**
	92.7%	**7.3%**	**83.3%**	**16.7%**

21.3.4 Fel y gwelwch o Dabl 3, nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn y defnydd a wnaed o'r SSS o'i dorri i lawr yn ôl statws anabledd neu salwch tymor hir y rheiny sydd â'r mwyafrif o'r rheolaeth dros y sefydliad.

Tabl 3. Y defnydd a wneir o'r SSS yn ôl statws Anabledd neu salwch tymor hir y mwyafrif o reolwyr y corff cleient.

Statws Anabledd neu Salwch Tymor Hir	**SSS Mewnfudiad**		**SSS nad yw'n ymwneud â Mewnfudiad**	
	Gwasanaeth heb ei Ddefnyddio	Gwasanaeth wedi'i Ddefnyddio	Gwasanaeth heb ei Ddefnyddio	Gwasanaeth wedi'i Ddefnyddio
Sâl neu Anabl	105	4	93	16
	96.3%	3.7%	85.3%	14.7%
Heb fod yn Sâl neu Anabl	3370	273	3032	611
	92.5%	7.5%	83.2%	16.8%
Wedi Rhannu	69	5	61	13
	93.2%	6.8%	82.4%	17.6%
Cyfanswm	**3544**	**282**	**3186**	**640**
	92.6%	**7.4%**	**83.3%**	**16.7%**

21.3.5 Roedd gwahaniaethau amlwg ym maint y defnydd a wnaed o'r SSS gan y sefydliadau cleient. Mae'r adran yma'n edrych ar ba mor aml yr oedd y sefydliadau cleient wedi defnyddio'r gwasanaeth yma.

Mae Tabl 4 yn dangos y nifer cymedrig o weithiau roedd cyrff cleientiaid wedi defnyddio'r SSS yn ôl ethnigrwydd y mwyafrif o'r rheolwyr. Yn ogystal â bod y grŵp mwyaf tebygol i ddefnyddio'r SSS mewnfudiad, roedd y cyrff cleient

gyda rheolaeth wedi'i rannu rhwng rheolwyr o wahanol ethnigrwydd wedi defnyddio'r gwasanaeth yn amlach, gan ddefnyddio SSS 7.58 o weithiau ar gyfartaledd i bob corff. Ond, roedd y mwyafrif o swyddfeydd wedi'u rheoli gan Brydeinwyr gwyn oedd wedi defnyddio'r SSS nad oedd yn ymwneud â mewnfudiad wedi gwneud hynny amlaf.

Tabl 4. Pa mor aml y defnyddir yr SSS, a chyfartaledd y defnydd a wneir o'r SSS, yn ôl Ethnigrwydd y mwyafrif o reolwyr y corff cleient.

Ethnigrwydd	**SSS Mewnfudiad**			**SSS heb fod yn ymwneud â Mewnfudiad**		
	Nifer y Cyrff	Cyfartaledd	Cyfanswm yr Amseroedd a Ddefnyddiwyd	Nifer y Cyrff	Cyfartaledd	Cyfanswm yr Amseroedd a Ddefnyddiwyd
Prydeinig Gwyn	194	6.06	1175	517	9.11	4712
BME	58	6.41	372	74	6.45	477
Wedi rhannu	24	7.58	182	41	8.44	346

21.3.6 Gwelwyd gwahaniaethau amlwg wrth edrych ar sefydliadau cleient oedd wedi defnyddio'r SSS fwy na deg gwaith (Tabl 5). Roedd canran llai o gyrff cleientiaid oedd â mwyafrif eu rheolwyr yn Brydeinwyr gwyn wedi defnyddio'r SSS mewnfudiad fwy na 10 gwaith o'i gymharu â chyrff gyda mwyafrif eu rheolwyr yn BME a chyrff â'u rheolaeth wedi'i rannu. I'r gwrthwyneb, roedd llai o gyrff cleientiaid gyda mwyafrif eu rheolwyr yn BME yn defnyddio SSS nad oedd yn ymwneud â mewnfudiad o'i gymharu â chyrff gyda mwyafrif eu rheolwyr yn Brydeinwyr gwyn a rhai gyda mwyafrif eu rheolaeth wedi'i rannu.

Tabl 5. Sawl corff ddefnyddiodd yr SSS ddeg neu fwy o weithiau yn ôl Ethnigrwydd y mwyafrif o reolwyr y corff cleient.

Ethnigrwydd	**SSS Mewnfudiad**		**SSS nad yw'n Ymwneud â Mewnfudiad**	
	Wedi Defnyddio hyd at 10 gwaith	Wedi Defnyddio fwy na 10 gwaith	Wedi Defnyddio hyd at 10 gwaith	Wedi Defnyddio fwy na 10 gwaith
Prydeinig Gwyn	165	29	394	123
	85.1%	14.9%	76.2%	23.8%
BME	46	12	60	14
	79.3%	20.7%	81.1%	18.9%
Rheolaeth wedi'i rannu	19	5	31	10
	79.2%	20.8%	75.6%	24.4%
Cyfanswm	**230**	**46**	**485**	**147**
	83.3%	**16.7%**	**76.7%**	**23.3%**

21.3.7 Fel sy'n amlwg o Dabl 6, mae sefydliadau cleient gyda mwyafrif y rheolwyr yn ferched oedd wedi defnyddio'r SSS wedi gwneud hynny'n amlach na chyrff gyda mwyafrif eu rheolwyr yn wrywaidd a chyrff gyda'u rheolaeth wedi'i rhannu, a hynny mewn materion yn ymwneud â mewnfudiad a materion eraill.

Tabl 6. Pa mor aml y defnyddir yr SSS, a'r defnydd cymedrig a wneir o'r SSS, yn ôl Rhyw'r mwyafrif o reolwyr y corff cleient.

Rhyw	**SSS Mewnfudiad**			**SSS nad yw'n Ymwneud â Mewnfudiad**		
	Nifer y Cyrff	Cymedrig	Sawl gwaith i gyd y defnyddiwyd yr SSS	Nifer y Cyrff	Cymedrig	Sawl gwaith i gyd y defnyddiwyd yr SSS
Dynion	104	5.40	562	232	8.50	1971
Merched	113	6.45	729	273	9.48	2588
Wedi rhannu	57	5.91	337	122	8.66	1056

21.3.8 Ymhellach, er mai dim ond amrywiad bach sydd yn y tebygolrwydd y byddai sefydliad cleient yn defnyddio'r SSS mewnfudiad fwy na deg o weithiau, roedd y defnydd a wnaed o'r SSS nad yw'n ymwneud â mewnfudiad yn llawer mwy tebygol ar gyfer swyddfeydd wedi'u rheoli gan ferched gan fwyaf, fel mae Tabl 7 yn ei ddangos.

Tabl 7. Sawl corff ddefnyddiodd yr SSS ddeg neu fwy o weithiau yn ôl Rhyw'r mwyafrif o reolwyr y corff cleient.

Rhyw	**SSS Mewnfudiad**		**SSS nad yw'n Ymwneud â Mewnfudiad**	
	Wedi Defnyddio hyd at 10 gwaith	Wedi Defnyddio fwy na 10 gwaith	Wedi Defnyddio hyd at 10 gwaith	Wedi Defnyddio fwy na 10 gwaith
Dynion	89	15	187	45
	85.6%	14.4%	80.6%	19.4%
Merched	94	19	195	78
	83.2%	16.8%	71.4%	28.6%
Rheolaeth wedi'i rhannu	48	9	98	24
	84.2%	15.8%	80.3%	19.7%
Cyfanswm	**231**	**43**	**480**	**147**
	84.3%	**15.7%**	**76.6%**	**23.4%**

21.3.9 Unwaith eto, roedd prinder y cyrff lle'r oedd mwyafrif y rheolwyr yn anabl neu'n dioddef o salwch tymor hir wedi'i gwneud hi'n anodd dod i unrhyw

gasgliadau dibynadwy o'r canfyddiadau sydd wedi'u cyflwyno yn Nhabl 8 am ddefnyddio'r SSS mewnfudiad.

Tabl 8. Pa mor aml y defnyddir yr SSS, a'r defnydd cymedrig a wneir o'r SSS, yn ôl Anabledd a Salwch Tymor Hir y mwyafrif o reolwyr y corff cleient.

Salwch Tymor Hir neu statws Anabledd	**SSS Mewnfudiad**			**SSS nad yw'n Ymwneud â Mewnfudiad**		
	Nifer y Cyrff	Cyfartaledd	Sawl gwaith i gyd y defnyddiwyd yr SSS	Nifer y Cyrff	Cyfartaledd	Sawl gwaith i gyd y defnyddiwyd yr SSS
Sâl neu Anabl	4	2.00	8	16	8.25	132
Heb fod yn Sâl neu'n Anabl	273	6.25	1705	611	8.97	5479
Wedi'i Rannu	5	11.80	59	13	7.62	99

21.3.10 Mae manylion y gwahaniaeth rhwng cyrff cleientiaid yn ôl lleoliad gwledig a threfol i'w gweld isod yn yr adran am Brawfesur Polisïau o safbwynt anghenion Cefn Gwlad.

21.3.11 Crynodeb

Mae'r data yma'n dangos bod perthynas rhwng ethnigrwydd a rhyw'r mwyafrif o'r rheolwyr mewn cyrff cleient a'r defnydd a wneir o'r SSS.

Defnyddiwyd yr SSS mewnfudiad gan 13.0% o'r sefydliadau lle mae'r mwyafrif o'r rheolwyr yn BME, o'i gymharu â 6.2% ar gyfer cyrff lle mae mwyafrif y rheolwyr yn Brydeinwyr gwyn. Roedd y cyrff lle'r oedd mwyafrif y rheolwyr yn BME oedd wedi'i defnyddio'r gwasanaeth, wedi gwneud hynny'n amlach ar gyfartaledd na chyrff Prydeinig gwyn. Ond, y cyrff hynny lle'r oedd y rheolaeth wedi'i rannu'n gyfartal rhwng rheolwyr gwyn Prydeinig a rheolwyr BME oedd y mwyaf tebygol, a hynny'n amlwg, o ddefnyddio'r ddau wasanaeth, gyda 15.4% yn defnyddio'r gwasanaeth mewnfudiad a 26.3% yn defnyddio'r gwasanaeth nad yw'n ymwneud â mewnfudiad. Roedd cyrff cleientiaid lle'r oedd y rheolaeth wedi'i rhannu oedd wedi defnyddio'r SSS mewnfudiad wedi defnyddio'r gwasanaeth hefyd yn amlach na'r sefydliadau BME a Phrydeinig gwyn. O'r cyrff oedd wedi defnyddio'r SSS nad yw'n ymwneud â mewnfudiad, y sefydliadau wedi'u rheoli gan Brydeinwyr gwyn oedd wedi gwneud hynny amlaf.

Er bod cwmnïau sydd wedi'u rheoli gan reolwyr BME, felly, ddwywaith mor debygol o ddefnyddio SSS mewnfudiad na'r cyrff sydd wedi'u rheoli gan reolwyr gwyn Prydeinig, mae'r mwyafrif llethol o'r darparwyr yma'n rhai heb

gontract a byddent yn dal i fod yn gallu cael gafael ar SSS, hyd yn oed dan y meini prawf diwygiedig.

Os yw'r gyfran o ddalwyr contract i'r rhai sydd heb gontract yr un fath ar gyfer cwmnïau wedi'u rheoli gan reolwyr gwyn Prydeinig a chwmnïau gyda rheolwyr BME sy'n defnyddio SSS mewnfudiad ac iechyd meddwl, yna bydd y cyfrannau yma'n aros yr un fath dan y cynllun newydd sydd wedi'i gynnig. Byddem yn croesawu'n arbennig gyfraniad unrhyw ystadegau perthnasol gan bartïon sydd â diddordeb yn y maes yma.

Wrth edrych ar wahaniaethau mewn rhyw ymysg y rheolwyr, y sefydliadau hynny lle mae'r rheolaeth wedi'i rannu'n gyfartal rhwng merched a dynion sy'n debygol o fod wedi defnyddio'r SSS amlaf, gyda 10.3% yn defnyddio'r gwasanaeth mewnfudiad a 22.0% y gwasanaeth nad yw'n ymwneud â mewnfudiad. Y sefydliadau lle mae'r mwyafrif o'r rheolwyr yn ddynion sydd leiaf tebygol o ddefnyddio'r gwasanaeth, gyda 5.9% yn defnyddio'r SSS mewnfudiad a 13.2% yr SSS nad yw'n ymwneud â mewnfudiad. Roedd 7.8% o'r cyrff lle mae'r mwyafrif o'r rheolwyr yn ferched wedi defnyddio'r gwasanaeth mewnfudiad a 18.8% y gwasanaeth cynghori heb fod am fewnfudiad. Ymhellach, roedd y cyrff lle mae'r mwyafrif o'r rheolwyr yn ferched oedd wedi defnyddio'r gwasanaethau wedi'u defnyddio nhw'n amlach na'r rheiny lle mae'r mwyafrif o'r rheolwyr yn ddynion a lle mae'r rheolaeth wedi'i rannu rhwng y ddau ryw. Roeddent hefyd yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio SSS nad yw'n ymwneud â mewnfudiad ar fwy na deg achlysur gyda 28.6% o'r cyrff yn gwneud hynny, o'i gymharu â 19.4% o'r cyrff lle mae'r mwyafrif o'r rheolwyr yn ddynion a 19.7% o'r cyrff lle mae'r rheolaeth wedi'i rannu rhwng y ddau ryw, sy'n defnyddio'r gwasanaeth yma.

Er bod y cwmnïau lle mae'r mwyafrif o'r rheolwyr yn ferched yn amlwg yn fwy tebygol o ddefnyddio SSS nad ydynt yn ymwneud â mewnfudiad na chwmnïau wedi'u rheoli gan ddynion, mae'r newidiadau rydym yn eu cynnig yn golygu bod gwasanaethau SSS yn parhau i fod ar gael yn gyfartal i gyrff wedi'u rheoli gan ferched a dynion fel ei gilydd, felly ni fydd y cyfrannau o ddefnydd a wneir ar hyn o bryd wedi'u heffeithio.

Ychydig iawn o gwmnïau oedd wedi'u rheoli gan reolwyr anabl neu rai â salwch tymor hir, ac ychydig iawn o swyddfeydd wedi'u rheoli gan reolwyr anabl neu rai â salwch tymor oedd wedi defnyddio'r SSS. Felly, nid oedd y dadansoddiadau wedi dangos gwahaniaethau arwyddocaol.

22. Prawfesur Polisïau o safbwynt anghenion Cefn Gwlad

22.1 Mae Tabl 9, isod, yn cymharu lleoliad gwledig a threfol cyrff cyflenwi sy'n defnyddior' SSS, wedi'u rhannu'n gyfreithwyr a chyrff di-elw. Roedd y lleoliad trefol/gwledig wedi'i benderfynu gan barth bidio'r cyflenwyr. Fel y gwelwch, mae cyflenwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi'u lleoli i raddau uchel iawn (90%) mewn ardaloedd trefol, gan adlewyrchu eu dosbarthiad sy'n hysbys ar hyn o bryd. Ond, roedd canran y cyflenwyr ymhob ardal wedi parhau'n weddol debyg (23% o gyflenwyr trefol wedi defnyddio SSS o'i gymharu â 18% o rai gwledig); fel yr oedd y gyfran o gyfreithwyr mewn cyrff

di-elw ymhob achos (86% / 17% mewn ardaloedd trefol o'i gymharu â 82% / 13% mewn rhai gwledig). Byddai hyn yn awgrymu na fydd ein cynigion yn effeithio'n fwy niweidiol o gwbl ar gyflenwyr gwledig na rhai trefol.

Tabl 9. Manylion y cyrff sy'n defnyddio'r SSS yn ôl lleoliad Trefol neu Wledig.

Math o Ddefnyddiwr	**Trefol**			**Gwledig**		
	Y Cyfanswm sydd wedi Defnyddio'r System	% o Ddefnyddwyr wedi'u Lleoli mewn Parth Bidio Trefol	% o Gyflenwyr wedi'u Lleoli mewn Parthau Bidio Trefol a Ddefn-yddiodd y Gwasanaeth	Y Cyfanswm sydd wedi Defnydd-io'r System	% o Ddefnyddwyr wedi'u Lleoli mewn Parth Bidio Gwledig	% o Gyflenwyr wedi'u Lleoli mewn Parthau Bidio Gwledig a Ddefnydd-iodd y Gwasanaeth
Pob Contract LSC	1007	90%	23%	111	10%	18%
Cyfreithwyr	640	90%	17%	75	10%	13%
Di-elw	367	91%	86%	36	9%	82%

22.2 Heblaw'r wybodaeth sy'n ymwneud â lleoliad trefol neu wledig y cyflenwyr, uchod, nid yw'r LSRC na'r LSC fel cyrff cyfan yn dallu darparu data am statws gwledig y 18 o ddarparwyr SSS ym maes eu SSS. Am nad oes data o'r fath ar gael, mae'n amhosib asesu ar y cam yma a fyddai'r cynigion sy'n ymwneud â'r SSS, i gyrff sy'n derbyn cyllido SSS ar hyn o bryd a'u defnyddwyr, yn effeithio'n ddrwg ar ddiddordebau gwledig, nag i ba raddau. Mae'r LSC, fodd bynnag, wedi'i ymrwymo i ymdrin â'r prinder cyfredol mewn data, a byddem yn croesawu'n arbennig gyfraniad unrhyw ystadegau perthnasol gan bartïon sydd â diddordeb.

23. Prawf o Effaith ar Gwmnïau Bach

Mae'r mwyafrif, os nad y cyfan, o ddarparwyr yr LSC yn fusnesau bach. Mae eu diddordebau wedi'u cynrychioli gan Gymdeithas y Cyfreithwyr, Cyngor y Bar, yr ASA a'r Grŵp Ymarferwyr Cymorth Cyfreithiol (LAPG) y bydd yr LSC yn ymgynghori â nhw. Bydd yr LSC hefyd yn sicrhau bod cynigion ymgynghori ar gael i bawb sydd â diddordeb drwy ei wefan, gan roi cyfle iddynt roi sylwadau Er nad oes unrhyw effaith uwch wedi'i weld ar gwmnïau bach nag eraill hyd yn hyn, mae'r LSC yn croesawu'n arbennig eu cyfraniad i'r broses ymgynghori. Byddwn yn ail werthuso'r holl dybiaethau cyfredol ar ôl derbyn yr ymatebion.

24. Asesu'r Gystadleuaeth

Ar ôl cyfeirio at brawf o hidl cystadleuaeth y Swyddfa Masnachu Teg (OFT), nid oes unrhyw effaith arwyddocaol wedi'i weld ar y gystadleuaeth o ganlyniad i'n cynigion mewn perthynas â'r SSS.

25. Prawf o'r Effaith ar Gymorth Cyfreithiol

Ni fydd unrhyw effaith negyddol ar y gronfa CLS. Bydd yr arbediad sylweddol o £613,350 a wneir o dynnu'r rhaglen hyfforddiant SSS cenedlaethol yn ei hôl, ynghyd ag unrhyw arbedion ategol eraill, wedi'u hailgyfeirio at gychwyniad materion newydd, fel y maent wedi'u disgrifio yn y papur ymgynghori. Ni fydd unrhyw gostau ychwanegol yn nhermau gweithredu ein cynigion mewn perthynas â'r SSS, felly, ni fydd y cynigon yn cael unrhyw effaith ar lefel y gwariant a geir ar hyn o bryd gan yr LSC ar Gymorth Cyfreithiol.

26. Gorfodi, Sancsiynau a Monitro

Mae'r LSC wedi'i ymrwymo i fonitro effaith gyffredinol y cynigion ar bartïon sydd â diddordeb, ac unrhyw brosiectau sydd wedi'u cyllido wedi hynny dan y meini prawf a phrosesau newydd, yn dilyn gweithrediad y cynigion newydd.

27. Cynlluniau Gweithrediad a Darparu

Bydd manylion y cynlluniau gweithredu a darparu i'w cael yn yr asesiad llawn o effaith rheoliadol fydd wedi'i gyhoeddi yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad.

28. Adolygiad ar ôl Gweithredu

Byddwn yn monitro ac yn gwerthuso effaith y cynigion yn dilyn gweithrediad a byddwn yn rhoi adroddiad am y canfyddiadau yn unol â'n dyletswyddau statudol a Chynllun Cydraddoldeb yr LSC.

29. Mesurau Symleiddio Digolledu

Mae Swyddfa'r Cabinet wedi cyhoeddi canllawiau interim ar symleiddio digolledia d, i'w defnyddio wrth gynhyrchu asesiadau o effaith rheoliadol. Mae'r canllaw interim yn gofyn i gyrff llywodraethol fynd ati i chwilio am gyfleoedd i symleiddio neu ddileu gofynion sy'n bodoli'n barod pan fyddent eisiau cyflwyno rheoliad newydd, ac asesu i ba raddau y bydd unrhyw gynigion symleiddio'n gwrthbwyso cost y mesuriad rheoliadol newydd ac effaith dileu'r ddarpariaeth gyfredol.

Nid yw'r cynigion yma'n creu mwy na llai o faich rheoliadol i gwmnïau neu ddarparwyr di-elw. Eu nod yw diwygio a gwella'r broses ymgeisio a'r meini prawf cyfredol, gan eu hadlinio gyda'r Strategaeth CLS a blaenoriaethau corfforaethol LSC cyfredol.

Felly mae'r LSC yn rhagweld y bydd y cynigion yn gwneud cyfraniad positif i amcanion y Llywodraeth ar gyfer symleiddio a gostwng baich y systemau rheoliadol.

30. Crynodeb ac Argymhelliad

Mae'r LSC yn argymell y dylid cyflwyno'r cynigion newydd, cadw ac atgyfnerthu SSS diwygiedig, parhau gyda gwasanaeth ymgynghori wedi'i addasu a'i ail-dendro; tynnu cyllid yn ôl ar gyfer cyfeirio gwaith achos uniongyrchol a thalu am yr achosion yma ar y gyfradd safonol drwy'r Contract Unedig; tynnu arian yn ôl am gyrsiau hyfforddi ac alinio'r gwasanaeth gyda'r Strategaeth CLS a blaenoriaethau corfforaethol cyfredol yr LSC

31. Pwynt Cysylltu

Simon Stanley
CLS Policy Team
Legal Services Commission
12 Roger Street
London
WC1 2JL

Ebost: simon.stanley@legalservices.gov.uk

Ffôn: 020 7759 1438

Ffacs: 020 7759 1428

Gadewch i ni wybod a ydych yn cytuno gyda'r dadansoddiad yma a'i gasgliadau os gwelwch yn dda.